**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 4ydd Ebrill 2018 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 131. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs P. M. Jones a Ms J. McAlpine.

## 132. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) - MAWRTH 2018

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 443 | Sage & Co | 31.00 | Gwasanaethau cyflogres Mawrth 2018 |
| 444 | HSBC | 12.35 | Taliadau banc 17 Ionawr i 16 Chwefror 2018 |
| 445 | Neopost | 200.00 | Peiriant ffrancio – ychwanegu |
| 446 | BT | 124.92 | Rhentu llinell rhyngrwyd |
| 447 | HMRC | 2,557.42 | Didyniadau cyflogres Chwefror 2018 |
| 448 | Cyngor Sir y Fflint | 4,142.80 | Cyfraniadau pensiwn ac ariannu diffyg Chwefror 2018 |
| 449 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,644.76 | Cyflogau staff Mawrth 2018 |
| 450 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Gwasanaethau digwyddiadau Chwefror 2018 |
| 260 | Siop Cyngor ar Fud-daliadau | 916.66 | Cyfraniadau Swyddog Apeliadau – 12 o 12 |
| 458 | BT | 138.50 | Rhentu llinell |
| 459 | Sioned Graham-Cameron | 217.83 | Gwasanaethau cyfieithu |
| | Cyfanswm taliadau | 16,426.24 | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 133. ATODLEN O DALIADAU RHEOLAIDD (ATODLEN A) AR GYFER 2018/19

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed drwy gydol y flwyddyn.

| Cyflenwr a Disgrifiad | Amlder | Dull | Swm yn cynnwys TAW £ | Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn £ | Amcangyfrif ac eithrio TAW £ | Cyllideb ar gyfer y flwyddyn £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau net staff Cyngor Tref y Rhyl | Misol | Trosglwyddiad banc | 7,000 | 84,000 | 84,000 | |
| Didyniadau staff CTRh | Misol | Trosglwyddiad banc | 2,900 | 34,800 | 34,800 | |
| Cynllun Pensiwn Clwyd Cyngor Sir y Fflint | Misol | Trosglwyddiad banc | 4,235 | 50,820 | 50,820 | |
| **Cyfanswm costau staff** | | | **14,135** | **169,620** | **169,620** | **169,700** |
| Sage a Gwasanaethau Cyflogres | Misol | Archeb Sefydlog | 31 | 372 | 310 | 300 |
| Cyngor Sir Ddinbych – Y Dreth Gyngor – 10 taliad | Misol | Debyd Uniongyrchol | 707 | 7,070 | 7,070 | 7,000 |
| HSBC – Taliadau Banc | Misoly | Debyd Uniongyrchol | 20 | 240 | 240 | 250 |
| Gunsmoke Communications - CC a Digwyddiadau | Misol | Trosglwyddiad Banc | 1,660 | 19,920 | 19,920 | 20,000 |
| Sioned Graham-Cameron - Gwasanaethau Cyfieithu | Misol | Trosglwyddiad Banc | 200 | 2,400 | 2,400 | 2,500 |
| Cyngor ar Fudd-daliadau - Swyddog Apeliadau | Misol | Archeb Sefydlog | 917 | 11,000 | 11,000 | 11,000 |
| Cymdeithas Gymunedol y Rhyl – CG Tynewydd | Chwarterol | Archeb Sefydlog | 2,625 | 10,500 | 10,500 | 10,500 |
| BT Telephones - Llinellau a Galwadau | Chwarterol | Debyd Uniongyrchol | 900 | 3,600 | 3,000 | 3,000 |
| BT Telephones - Band eang | Chwarterol | Debyd Uniongyrchol | 120 | 480 | 400 | 400 |
| Shire Leasing - System ffôn Avaya | Chwarterol | Debyd Uniongyrchol | 360 | 1,440 | 1,200 | 1,200 |
| Neopost - Peiriant Ffrancio | Chwarterol | Trosglwyddiad Banc | 200 | 800 | 800 | 750 |
| Cyngor ar Bopeth – Gweithiwr Tlodi Tanwydd | Chwarterol | Archeb Sefydlog | 2,000 | 8,000 | 8,000 | 8,000 |
| Canda Copying – Rhentu peiriant copïo | Chwarterol | Trosglwyddiad Banc | 540 | 2,160 | 1,800 | 1,800 |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen a'i llofnodi gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd P. Prendegast.*

.

## 134. AWURDODI TALIADAU (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w gwneud dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 460 | Barry Hamilton | Ffotograffau – Cyfarfod Blynyddol 2017 | 110.00 |
| 461 | TAPE | Côr Ghostbuskers ar gyfer digwyddiad Dydd Gwyl Dewi | 250.00 |
| 462 | Flying Colours Entertainment | 2 x Cerddwyr stiltiau | 840.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ltd | digwyddiad y Pasg | |
| 463 | Flying Colours Entertainment Ltd | Amrywiol artistiaid ar gyfer digwyddiad Calan Mai y Maer | 2,286.00 |
| 464 | Cyngor Sir Ddinbych | Trwsio wal Canolfan Gymunedol Tynewydd | 846.53 |
| | | **Cyfanswm taliadau** | **£4,332.53** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen a'i llofnodi gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd P. Prendegast.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.*

**135. DATGANIAD TALIADAU ARIAN MAN – 1af HYDREF 2017 – 31ain MAWRTH 2018**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i wariant arian mân yn ystod y cyfnod chwe mis uchod, gyda'r atodlen ynghlwm fel atodiad A.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r taliadau canlynol a wnaed o arian mân.*

| Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau | Swm |
|---|---|
| 5 x dyddiadur | 5.00 |
| Morrisons - 10 x gwydr hanner peint | 10.00 |
| Aldi – lluniaeth | 6.76 |
| Gorilla Tape | 5.00 |
| Jel Sinc a Draen | 3.49 |
| Fframiau ar gyfer Cystadleuaeth Ffenestri Nadolig | 20.10 |
| Lluniaeth ar gyfer Cyfarfod Nadolig y Cyngor | 61.71 |
| Aldi – amrywiol luniaeth | 9.73 |
| Batris | 3.99 |
| Cerdyn Cydymdeimlad ar gyfer teulu Oscar Morris | 0.59 |
| | |
| **Cyfanswm** | **£126.37** |

**136. AMRYWIO AMODAU CYFEIRIO IS-BWYLLGOR CYNNAL A CHADW TIROEDD**

Hysbysodd Clerc y Dref y cyfarfod o'r gorgyffwrdd naturiol rhwng cynnal a chadw'r Gerddi Coffa a chylch gorchwyl yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd a gofynnodd i'r aelodau ystyried haeddiannau cynnwys y Gerddi Goffa yn y cylch gorchwyl hwnnw.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd yn cymryd cyfrifoldeb am y Gerddi Coffa a chael awdurdod dirprwyedig i wario'r gyllideb a ddyrannwyd.*

**137. EITEM GAN AELOD: MAES PARCIO TANDDAEDAROL Y RHYL**

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James am gefnogaeth yr aelodau i ofyn i Gyngor Sir Ddinbych ystyried gwneud y maes parcio tanddaearol yn

gyfleuster ‘parcio diogel’, gyda’r cyfle i drefnu a thalu arlein ynghyd â thalu wrth y peiriant tocynnau.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn gwneud y cais i Gyngor Sir Ddinbych.*

**138. EITEM GAN AELOD: ‘ARFORDIROEDD DI-BLASTIG’**

Dosbarthodd y Cynghorydd K. R. Jones gopïau o adroddiad roedd wedi ei ysgrifennu fel gwirfoddolwr ac aelod o’r grŵp ymgyrchu Surfers Against Sewage, a gofynnodd am gefnogaeth yr aelodau i gyflawni statws ‘cymuned di-blastig’ ar gyfer y Rhyl trwy gefnogi’r cynllun ‘Arfordiroedd Di-blastig’.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor Tref yn cefnogi’r ddwy fenter.*

**139. EITEMAU ER GWYBODAETH I’R AELODAU**

Ymweliad Parc Dwr

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr ebost gan Mr Gareth Watson o Gyngor Sir Ddinbych yn gwahodd y cynghorwyr i weld y datblygiad hyd yma am 10.00am ar ddydd Gwener 6ed Ebrill 2018, ac atgoffodd nhw i ymateb yn uniongyrchol i Mr Watson.

Ymweliad â Chanolfan Cyngor ar Bopeth

Dywedodd Clerc y Dref bod cynghorwyr tref wedi eu gwahodd i ymweld rhwng 3.00pm a 4.30pm i weld y swyddfeydd a oedd wedi eu hailwampio yn ddiweddar ar Stryd y Dwr.

**140. GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**141. CYTUNDEB ARIANNU GYDA CHYNGOR SIR DDINBYCH**

Adroddodd Clerc y Dref bod y ddogfen bellach wedi ei llofnodi gan y ddau barti.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod bod y cytundeb wedi ei lofnodi.*

**142. GOHEBIAETH GAN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**

Ymhellach i gofnod rhif 21 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Mehefin 2017, adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau’n cadarnhau nad oedd y Cyngor Tref, yn anffodus, mewn sefyllfa i wneud cyfraniad ariannol ar yr achlysur hwn a dymuno’n dda i’r trefnwyr.*

**143. GWAHODDIAD ARFAETHEIG I ARWEINYDD CYNGOR SIR DDINBYCH**

Hysbysodd Clerc y Dfref y cyfarfod o bryderon a fynegwyd ynglyn â lefel yr ymgynghoriad a oedd yn cael ei dderbyn gan y Cyngor ar nifer o faterion a oedd yn effeithio’r dref. Dywedodd Clerc y Dref ymhellach bod yr Arweinydd, y

Cynghorydd Hugh Evans, wedi ei wahodd i fynychu cyfarfod y Cyngor Tref i drafod pryderon o'r fath yn y gorffennol, a gofynnodd i'r aelodau os hoffent iddo wneud hynny.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn gwahodd y Cynghorydd Evans.*

## 144. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

## 145. EITEM YCHWANEGOL: MAER NEWYDD AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2018/19

[Gadawodd y Cynghorydd P. Prendegast y siambr]

Adroddodd y Cadeirydd bod y Dirprwy Faer wedi cyflwyno llythyr i'w ystyried gan y Cyngor. Yn unol â dymuniadau'r Dirprwy Faer, darllenodd y Cadeirydd y llythyr yn nodi ei fod, am y rhesymau a ddatganwyd nawr ac yn dod i rym ar unwaith, yn ymddiswyddo fel Dirprwy Faer ac yn tynnu ei enw yn ôl o'r etholiad ar gyfer swydd Maer y Dref ar gyfer 2018/19.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Prendegast o swydd Dirprwy Faer y Dref gyda thristwch.*

## 146. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:……………….……..

Dyddiad: ……………………..